

# NEWYDDION DA

Un diwrnod daeth angel i weld merch ifanc o blith yr Iddewon o'r enw Mair. Dywedodd wrthi ei bod yn mynd i gael babi. Ar y dechrau roedd gan Mair ofn achos doedd hi ddim yn deall sut oedd hi'n mynd i gael babi pan doedd ganddi ddim gwr. Ond wnaeth yr angel ei chysuro trwy ddweud mai Duw oedd wedi trefnu hyn. Roedd Duw wedi rhoi Iesu Grist, Achubwr y byd y tu mewn iddi. Byddai yn dod i'r ddaear trwyddi hi.




**"Does dim byd sy'n amhosib i  
Dduw ei wneud."** Luc 1:37

## Sut wnaeth Duw ddweud wrth Mair y byddai hi'n rhoi genedigaeth i'r Meseia?



Trwy ffrind



trwy anfon llythyr



trwy angel




trwy ffonio

---

## Sut mae Duw yn dweud wrthon ni heddiw beth ydy ei ewylllys i ni?

Cysyllta'r rhifau ac mi gei di weld!



Sut wnaeth Mair ymateb i ymweliad yr angel?

Sut wyt ti'n ymateb i ewylllys Duw?



# Gwers 2

## NEWYDDION DA

**Testun y Beibl:** Luc 1:26-38

**Adnod allweddol:** Luc 1:37

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall yr hanes am y ffordd wnaeth Mair ymateb i'r Newyddion Da a byddan nhw'n ufuddhau i Air Duw yn llawen fel y gwnaeth Mair.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

### I Gwers

Ar ôl i'r plant orffen y daflen liwio, bydd yr athro yn dweud y stori o'r Beibl o Luc 1:26-38.

Wrth ddweud yr hanes, daliwch y Beibl yn eich llaw neu wrth eich ymyl yn agored yn y bennod dan sylw. Mae'r Beibl yn cynrychioli awdurdod Duw.

Yn y Beibl y mae hanes digwyddiad anghyffredin. Tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl yn ystod chweched mis y flwyddyn, wnaeth Duw anfon angel o'r enw Gabriel i Galilea, i bentref Nasareth at ferch ifanc Iddewig o'r enw Mair. Roedd hi wedi dyweddio i ddyn o'r enw Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi, wnaeth angel Duw fynd i weld Mair a dweud wrthi, "Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda ti!" (Luc 1:28) Doedd Mair ddim yn deall beth oedd y geiriau yma'n feddwl ac roedd ganddi ofn. Ond dywedodd yr angel wrthi, "Paid bod ofn, Mair. Mae Duw wedi dewis dy fendithio di'n fawr." Wedyn rhoddodd newyddion syfrdanol iddi fel merch ifanc heb briodi. "Rwyd ti'n mynd i gael babi, a byddi di'n cael mab." Dylai'r newyddion yma fod wedi gwneud Mair yn hapus. Mae cael babi yn beth llawen iawn. Ond os nad oedd ganddi wr, niasai Mair wedi medru cael y babi. Roedd hyn yn bechod mawr. Felly roedd Mair yn ddryslyd ac yn poeni'n fawr. "Sut mae'r fath beth yn bosib?" gofynodd. "Dw i ddim wedi priodi." Wnaeth yr angel ddweud mai gwyrth gan Dduw oedd hyn. "Byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyd ti i'w roi iddo," meddai. "Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd, a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!" O glywed y pethau yma ac o wybod beth oedd y proffwydi wedi dweud, wnaeth Mair ddeall beth oedd ei thasg sef dod â Mab Duw, yr Achubwr, i'r byd. Felly fe wnaeth hi dderbyn y dasg a dweud "Dw i eisio gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Gad i beth rwyd ti wedi'i ddweud ddod yn wir."

**Awgrym:** Ar gyfer plant iau, gellid defnyddio'r llun ar y daflen liwio i ddangos y ddau gymeriad. Ar gyfer plant hyn dros wyth mlwydd oed, gellid gofyn am ddau wirfoddolwr i ddweud yr hanes efo'i gilydd.

## **II Gweithgareddau**

### **1 Yr Adnod Allweddol**

#### **a) Darllenwch yr adnod yn uchel:**

“Does dim byd sy’n amhosib i Dduw ei wneud.” Luc 1:37

#### **b) Helpwch y plant i ddysgu’r adnod gan ddefnyddio gwahanol dduliau megis gêm, cystadleuaeth ayb.**

### **2 Cwestiynau adolygu i’r plant**

- Pam wnaeth yr angel ddod at Mair?
- Beth oedd enw’r angel?
- Beth wnaeth yr angel ddweud wrth Mair?
- Pam oedd Mair yn poeni am newyddion yr angel?
- Pwy oedd y babi fyddai’n cael ei eni?
- Beth ydy Achubwr?
- Pam oedd rhaid i Achubwr ddod i’r ddaear?
- Wnaeth Mair dderbyn ei thasg?

## **III Diwedd glo**

Wnaeth Mair dderbyn ewyllys Duw ar ei chyfer beth bynnag fyddai’r gost. Roedd hi’n beryglus i ddynes oedd heb briodi gael babi. Efallai y byddai ei dyweddi yn ei gadael hi. Efallai y byddai’r bobl yn ei lladd trwy daflu cerrig ati gan mai dyna oedd yr arfer yn y dyddiau hynny. Ond wnaeth Mair drystio Duw. Wnaeth hi dderbyn ei thasg a hyd yn oed canu cân o fawl i Dduw (Luc 1:46-55). Mae Duw yn gofyn i ti fod yn ufudd iddo ac i wneud ei ewyllys beth bynnag fo’r gost: embaras, bobl yn gwneud hwyl am dy ben, bod ar ben dy hun ayb. Cana gân o fawl i Dduw beth bynnag fo’r sefyllfa rwyt ti ynddo a thrystia fo. Roedd Mair yn ddynes gafodd fendith ac roedd hi yn fendith i holl bobl y byd. Gelli di hefyd gael bendith a bod yn fen